**Eitem ar yr agenda: 10**

GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU |
| DYDDIAD: | 15 RHAGFYR 2003 |
| ADRODDIAD GAN: | TRYSORYDD |
| MATER DAN SYLW: | CYLLIDEB DDRAFFT 2004/2005 |

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cynigion i'r Awdurdod mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2004/2005, y rhagolygon ar gyfer 2005/2006 a 2006/2007, ac atodir y papurau canlynol:-

(i) y gyllideb refeniw ddrafft (atodiad A),
(ii) y rhaglen gyfalaf ddrafft (atodiadau Band C),
(iii) y cyfraniadau dros dro angenrheidiol gan gynghorau sy'n rhan o'r awdurdod (atodiad D),
(iv) datganiad yn manylu ar gynnydd yn y gyllideb (atodiad E),
(v) rhestr o ddangosyddion darbodus fel sy'n ofynnol gan Gôd Ymarfer ar Reoli'r Trysorlys Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifon (CIPFA) (atodiad F) a
(vi) Strategaeth Reoli'r Trysorlys a'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2004/2005 (atodiad G).

1.2 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 29 Medi rhoddwyd gwybodaeth i Aelodau ynglŷn â goblygiadau costau'r Dyfarniad Tâl fel y câi ei adnabod ar y pryd. Erbyn hyn cytunwyd ar Gam 2 o'r Dyfarniad Tâl ac mae wedi'i gynnwys wrth gyfrifo tâl staff lifrai yn y gyllideb ddrafft.

1.3 Mae'r gyllideb drafft hefyd yn cynnwys cynigion yr Awdurdod Tân yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg.

2. CYLLIDEB REFENIW

2.1. Y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2004/2005 yw £28.349m ac mae'r gymhariaeth â'r gwariant gwirioneddol ar gyfer 2002/2003, y gyllideb derfynol wreiddiol ar gyfer 2003/2004, rhagolygon ar gyfer 2005/2006 a 2006/2007 a'r ffigurau terfynol a ragwelir ar gyfer 2003/2004 wedi'i nodi yn Atodiad A. Mae datganiad o'r gyllideb wedi'i roi ar ddwy ffurf; un yn dangos incwm a gwariant mewn manylder a'r llall ar ffurf Gwerth Gorau.

2.2. Mae'r gyllideb arfaethedig 12.03% yn uwch na'r hyn a gymeradwywyd ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Y prif ffactor am y cynnydd rhwng cyllideb 2003/2004 a chyllideb 2004/2005 yw'r dyfarniad tâl. **Rhoddir nifer o opsiynau i Aelodau yn ddiweddarach yn yr adroddiad er mwyn lleihau'r cynnydd o 12.03% heb effeithio ar lefelau gwasanaeth.**

2.3. Mae'r rhagamcaniadau presennol yn dangos y bydd y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2003/2004 yn nodi gorwariant o £216,658. Mae hyn wedi'i leihau o'r gorwariant blaenorol a adroddwyd yn sgil llithriad yn y rhaglen gyfalaf lle bu'n bosibl newid pryniant offer dŵr o fod yn bryniant trwy lesio yn y flwyddyn ariannol hon i fenthyca arian yn 2004/2005. Yng nghyfarfod Awdurdod Tân ar 16 Mehefin 2003

cytunwyd symud y tanwariant o 2002/2003 o £748,064 i'r arian ar gyfer y Dyfarniad Tâl.

2.4. Cynigir bod £216,658 o'r swm hwn yn cael ei ddefnyddio i gyllido'r gorwariant arfaethedig ar gyfer 2003/2004 a bod y gweddill yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2004/2005.

3 RHAGLEN GYFALAF

3.1 Mae'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2004/2005 wedi'i nodi yn Atodiadau B,C a D ac mae symiau hyd at £3,281,200, o'r swm hwn £2,190,700 ar gyfer cynlluniau newydd ac mae £1,090,500 ar gyfer cynlluniau sydd wedi llithro o'r flwyddyn flaenorol. Yn 2003/2004 y ffigurau terfynol a amcangyfrifir o ran gwariant cyfalaf (ac eithrio lesio) yw £1,038,750. Cynigir cyllido hyn drwy Hawl Credyd Sylfaenol o £936,000, £59,000 o'r Arian Cyfalaf a £43,750 o Dderbyniadau Cyfalaf.

3.2 Yn 2004/2005 bydd y Côd Darbodus yn dod i rym a bydd y terfynau ar fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael eu dileu. Y prif faterion wrth ystyried y rhaglen fuddsoddi gyfalaf fydd a fydd yn fforddiadwy; yn ddarbodus ac yn gynaladwy; gwerth am arian; rheoli asedau; amcanion gwasanaeth; ac ymarferoldeb. Dangosir manylion am y Dangosyddion Darbodus yn Atodiad F.

3.3 Yn y blynyddoedd a fu roedd llithriad yn y rhaglen gyfalaf yn golygu os oedd y cynlluniau i barhau, bod yn rhaid cael cyllid yn uwch na Hawl Credyd Sylfaenol ar gyfer cynlluniau newydd yn y flwyddyn ariannol newydd. Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Awdurdod Tân wedi adeiladu cronfa o Arian Cyfalaf i gyllido llithriadau yn y rhaglen gyfalaf. Er hynny, ni fu'n rhaid bob amser ddefnyddio'r Arian Cyfalaf a'r balans o ran y gronfa yn awr yw £481,631. Bydd yn rhaid defnyddio £59,000 o'r arian i gyllido gwariant cyfalaf yn 2003/2004 gan adael balans o £422,631.

3.4 Gyda'r Côd Darbodus newydd ni fydd bellach yn rhaid cadw arian ar gyfer gwariant cyfalaf felly gellir defnyddio'r swm o £422,631 ar gyfer delio gyda gofynion cyllidol 2004/2005.

4. OPSIYNAU AR GYFER LLEIHAU'R CYNNYDD O 12.03%

4.1 Mae dau opsiwn eisoes wedi'u hamlinellu ym mharagraffau 2.4 a 3.4 ac amlinellir opsiynau pellach isod.

4.2 Opsiwn arall er mwyn lleihau'r cynnydd ymhellach yw neilltuo cyfraniad o £160,000 i'r Swm ar gyfer Pensiwn ar gyfer 2004/2005 a chodi'r cyfraniad o £20,000 dros yr 8 mlynedd nesaf. Manylir ar effaith y cynnig hwn ar y Swm ar gyfer Pensiwn yn Atodiad H.

4.3 Bydd gwerthu eiddo sy'n weddill yn creu Derbyniad Cyfalaf posibl o £115,000 ac ar ôl dadansoddi'r gyllideb ar gyfer 2004/2005 mae'n bosibl y gallai £80,000 o wariant refeniw ar offer gael ei ddefnyddio ar gyfer cyfalaf a'i gyllido o'r Derbyniad Cyfalaf.

4.4 Yn Nhabl 1 manylir ar effaith yr opsiynau ar y gyllideb yn ôl canran yn nhermau ariannol yn y drefn y maent wedi'u nodi yn yr adroddiad. Mae peth risg neu ddim risg o gwbl o ran dewis yr opsiwn sy'n defnyddio balans y tanwariant blaenorol a balans yr Arian Cyfalaf. Mae risg na fydd Derbyniad Cyfalaf ar gyfer eiddo sy'n weddill yn codi yn 2004/2005 a, thra bod yr opsiwn a nodir ym mharagraff 4.2 yn llithro oddi wrth bolisi blaenorol mae mwy o sicrwydd iddo na dibynnu ar Dderbyniad Cyfalaf posibl. Os yw Aelodau'n dymuno gweld cynnydd o lai nag 8% yn y gyllideb yna dylid rhoi ystyriaeth fanwl i'r 'Opsiwn Pensiwn'.

Tabl 1

| | **Lleihad yn y Gyllideb** | **Cyfanswm Cyllideb** | **% Cynnydd 2004/2005** | **% Cynnydd 2005/2006** | **%Cynnydd 2006/2007** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Gyfredol 2004/2005 | | £28,348,670 | 12.03 | 2.95 | 3.38 |
| Cyfraniad o'r Swm ar gyfer Tâl a'r Arian Cyfalaf | £954,037 | £27,394,633 | 8.26 | 6.53 | 3.38 |
| Oedi o ran cyfraniad i'r Swm Pensiwn | £160,000 | £27,234,633 | 7.63 | 7.16 | 3.38 |
| Derbyniad Cyfalaf | £80,000 | £27,154,633 | 7.31 | 7.55 | 3.38 |

4.4 Yn y pendraw Aelodau fydd yn dewis ar ba lefel y gosodir y gyllideb gan ystyried yr anghenion ar gyfer y sefydliad hwn. Wrth wneud hyn mae'n rhesymol bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyllido ar gyfer y dyfodol a'r effaith ar sut byddai'r Awdurdod yn derbyn ei incwm. Fel mae Tabl 1 yn ei ddangos mae'r gyllideb ddrafft arfaethedig yn dangos cynnydd o 12.03% dros y flwyddyn bresennol gyda chynnydd posibl o oddeutu 3% yn y blynyddoedd yn dilyn. Os manteisir ar y cyfle hwn i ddelio gyda'r cynnydd ar gyfer 2004/2005, mae'n bosib cael cynnydd mwy esmwyth o fewn y gyllideb. Nid yw'r opsiynau arfaethedig uchod yn effeithio at lefelau gwasanaeth ond os bydd raid lleihau ymhellach yna fe fyddant yn cael eu heffeithio.

5. ARGYMHELLIAD

5.1. Argymhellir bod

(i) balans y tanwariant o'r blynyddoedd blaenorol a balans y Swm Cyfalaf yn cael eu defnyddio i ddelio gyda'r cynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2004/2005.

(ii) Aelodau'n penderfynu a oes angen cymryd camau pellach mewn perthynas â 2004/2005 ac, felly y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2004/2005.

(iii) Aelodau'n penderfynu ar ba lefel i osod y gyllideb ar gyfer 2004/2005.

(iv) cynghorau sy'n rhan o'r awdurdod yn derbyn cyngor ynglŷn â'r cyfraniadau a ragwelir fel a nodir yn Atodiad D, yn ddibynnol ar y penderfyniad a wneir ynghylch lefel y gyllideb.

(v) y rhaglen gyfalaf ddrafft a'r dulliau cyllido cysylltiedig yn cael eu cymeradwyo

(vi) y cynigion yn Atodiad F ar Ddangosyddion Darbodus yn cael eu cymeradwyo.

(vii) y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Blynyddol yn cael eu cymeradwyo.

K W FINCH
**Trysorydd**

ATODIAD E

## Cynnydd yn y Gyllideb ar gyfer 2004/2005

### 1. Gweithwyr

Prif Swyddogion – mae'r cynnydd yn digwydd oherwydd bod yr arolwg o'r Strwythur Rheoli yn cael ei weithredu'n rhannol gan gynnwys swydd Prif Swyddog Tân Cynorthwyol a throsglwyddo'r swydd Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) o Staff Gwasanaethau Llywodraeth Leol. O ganlyniad mae nifer llai o swyddi – Uwch Swyddog Rhanbarthol ac un Swyddog Rhanbarthol 1 yn y gyllideb ar gyfer staff llawn amser, gan wneud cyfanswm o £176,927.

Gweithwyr Lifrai Rhan Amser – mae cynnydd o 29.6% yn ddyledus i'r dyfarniad tâl, gan gyfateb y tâl fesul awr i dâl staff lifrai llawn amser. Enghraifft o hyn yw cyfradd tâl yr awr sy'n codi o £6.45 i £10.94 i ddynion a merched tân rhan amser, sef cynnydd o 69.6%; ffioedd ymarfer yn codi o £19.07 i £32.82 cynnydd o 72.1%; a'r swm o £90,000 a gynhwysir ar gyfer Diogelwch Tân yn y Gymuned fel a gytunwyd yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg (IRMP).

### 2. Eiddo

Mae'r cynnydd yn digwydd yn bennaf yn sgil costau rhentu'r pencadlys newydd a gynhwysir ar gyfer 2004/2005.

### 3. Cyflenwadau a Gwasanaethau

Offer Gweithredol – yn cynnwys swm o £24,000 ar gyfer Cymdeithas Dynion/Merched Tân Ifanc fel a gynhwysir yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg.

Lifrai – cyllid ychwanegol ar gyfer Lifrai Warcheidiol Bersonol ac offer gweithio newydd. Mae'r costau hyn yn cael eu gosod yn erbyn arbedion y blynyddoedd i ddod.

Comisiwn Archwilio – mae'r cynnydd wedi digwydd yn sgil costau ychwanegol wrth ddilysu'r rhaglen foderneiddio.

Gwasanaethau Pwyllgor – bydd y cynnig arfaethedig o gynyddu lwfansau Aelodau'n cynyddu cyllideb Gwasanaethau Pwyllgorau o £60,000.

ATODIAD F

**DANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

1. Y costau cyfalaf gwirioneddol yn 2002-2003 a'r amcangyfrifon o wariant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r blynyddoedd i ddod a argymhellir i'w cymeradwyo yw:

| 2002/03 £'000 Gwirioneddol | 2003/04 £'000 Terfynol | 2004/05 £'000 Amcangyfrif | 2005/06 £'000 Amcangyfrif | 2006/07 £'000 Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|
| 1,678 | 2,697 | 3,281 | 1,873 | 1,810 |

2. Amcangyfrifon o ran cymhareb costau cyllido i wariant net ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r blynyddoedd i ddod, a'r ffigurau gwirioneddol ar gyfer 2002-2003 yw:

| 2002/03 Gwirioneddol | 2003/04 Terfynol | 2004/05 Amcangyfrif | 2005/06 Amcangyfrif | 2006/07 Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|
| 1.82% | 1.84% | 1.76% | 2.41% | 2.84% |

Mae'r amcangyfrifon o gostau cyllido yn cynnwys ymrwymiadau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn o'r gyllideb.

3. Yr amcangyfrifon o'r cyllid cyfalaf diwedd flwyddyn ar gyfer yr awdurdod ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r blynyddoedd i ddod â'r gofynion cyllido cyfalaf ar 31 Mawrth 2003 yw:

| 31/03/03 £'000 Gwirioneddol | 31/03/04 £'000 Terfynol | 31/03/05 £'000 Amcangyfrif | 31/03/06 £'000 Amcangyfrif | 31/03/07 £'000 Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|
| 3,329 | 3,995 | 7,081 | 8,670 | 10,133 |

4. Mae'r gofynion cyllido cyfalaf yn mesur angen sylfaenol yr awdurdod i fenthyca ar gyfer diben cyfalaf. Yn unol ag arfer proffesiynol gorau, nid yw Awdurdod Tân Gogledd Cymru'n cysylltu benthyca gydag eitemau arbennig na mathau o wariant. Mae adroddiad a gyflwynwyd yn gynharach ar y rhaglen yn argymell bod yr awdurdod yn mabwysiadu Côd Ymarfer ar Reoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus, gan sicrhau fod gan yr awdurdod strategaeth integredig o ran rheoli'r trysorlys. Ar unrhyw gyfnod mae gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru, sawl llif arian, rhai positif a negyddol, ac mae'n rheoli ei safle ariannol yn nhermau benthyciadau a buddsoddiadau yn unol â'i strategaeth a'r arferion rheoli trysorlys a gymeradwywyd. O ran rheoli arian o ddydd i ddydd, ni ellir gwahaniaethu rhwng arian refeniw ac arian cyfalaf. Mae benthyca allanol yn digwydd o ganlyniad i holl ddeliadau ariannol yr awdurdod ac nid yn unig y rhai sy'n codi o wariant cyfalaf. I'r gwrthwyneb, mae'r gofynion cyllido cyfalaf yn adlewyrchu angen sylfaenol yr awdurdod i fenthyca at ddiben cyfalaf.

5. Mae Côd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol yn cynnwys y canlynol fel prif ddangosydd ar gyfer bod yn ddarbodus:

"Er mwyn sicrhau mai at ddiben cyfalaf yn unig y bydd y benthyca gwirioneddol yn y tymor canolig, dylai'r awdurdod lleol sicrhau na fydd y benthyca allanol, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofynion cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol yn cynnwys yr amcangyfrifon o unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r ddwy flynedd ariannol yn dilyn."

Dywed y Trysorydd na chafodd yr awdurdod unrhyw anhawster i gwrdd â'r gofynion hyn yn 2002-2003, ac ni ragwelir unrhyw anawsterau ar gyfer y flwyddyn bresennol na'r blynyddoedd i ddod. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth ymrwymiadau presennol, cynlluniau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn o'r gyllideb.

6. O ran ei ddyled allanol, argymhellir bod yr Awdurdod Tân yn cymeradwyo dilyn y terfynau awdurdodedig canlynol ar gyfer cyfanswm gros buddsoddiadau allanol ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf, a'u bod yn cytuno ar y terfyn y cytunwyd arno'n flaenorol ar gyfer y flwyddyn bresennol gan nad oes angen newid hyn. Mae'r terfynau hyn yn adnabod benthyca ar wahân i rwymedigaethau tymor hir fel lesoedd ariannol. Gofynnir i'r Awdurdod Tân gymeradwyo'r terfynau hyn ac i ddirprwyo awdurdod i'r Trysorydd, o fewn y cyfanswm terfynau ar gyfer unrhyw un flwyddyn, i symud rhwng y terfynau unigol y cytunwyd arnynt ar gyfer benthyca a rhwymedigaethau tymor hir eraill , yn unol â gwerthuso opsiynau a gwerth gorau am arian ar gyfer yr awdurdod. Bydd unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Tân yn ei gyfarfod nesaf yn dilyn y newid.

**Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol**

| | **2003/04** | **2004/05** | **2005/06** | **2006/07** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Benthyca | 8,691 | 11,635 | 13,668 | 15,637 |

7. Mae'r Trysorydd yn nodi bod y terfynau awdurdodedig hyn yn gyson gydag ymrwymiadau presennol yr awdurdod, ei gynlluniau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn o'r gyllideb ar gyfer gwariant a chyllido cyfalaf, a gyda'i ddatganiad polisi a'i ymarferion rheoli'r trysorlys a gymeradwywyd. Mae'r Trysorydd yn cadarnhau eu bod yn seiliedig ar yr amcangyfrif o'r hyn sy'n debygol ac yn ddarbodus ond nid y senario waethaf, gyda sgôp yn uwch na hyn ar gyfer rheoli gweithredol, er enghraifft symudiadau arian anghyffredin. Mae strategaethau dadansoddi risg a rheoli risg wedi'u hystyried; yn ogystal â chynlluniau ar gyfer gwariant cyfalaf, amcangyfrifon o'r gofynion o ran cyllido cyfalaf ac amcangyfrifon o ofynion llif arian ar gyfer yr holl ddibenion.

8. Hefyd gofynnir i'r Awdurdod Tân gymeradwyo'r ffin weithredol ganlynol ar gyfer dyled allanol ar gyfer yr un cyfnod. Mae'r ffin weithredol arfaethedig ar gyfer dyled allanol yn seiliedig ar yr un amcangyfrifon â'r terfynau awdurdodedig ond mae'n adlewyrchu'n uniongyrchol ar amcangyfrif y Trysorydd o'r hyn sy'n debygol ac yn ddarbodus ond nid y senario waethaf, gyda sgôp yn uwch na hyn wedi'i gynnwys o fewn y terfyn awdurdodedig i ganiatáu am symudiadau arian anghyffredin, ac mae'n cyfateb i'r uchafswm o ran dyled allanol a ragwelir gan yr amcangyfrif hwn. Mae'r ffin weithredol yn cynrychioli canllaw rheoli allweddol ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn gan y Trysorydd. O fewn y ffin weithredol, mae ffigurau ar gyfer benthyca a rhwymedigaethau tymor hir eraill, mewn dull tebyg i'r terfyn awdurdodedig. Bydd unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Tân yn ei gyfarfod nesaf yn dilyn y newid

**Ffin Weithredol ar gyfer Dyled Allanol**

| | **2003/04** | **2004/05** | **2005/06** | **2006/07** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Benthyca | 6,691 | 9,635 | 11,668 | 13,637 |

9. Dyled allanol wirioneddol yr Awdurdod Tân ar 31 Mawrth 2003 oedd £3,348,428. Dylid nodi nad yw'n bosibl i'r ddyled allanol wirioneddol gael ei chymharu'n uniongyrchol i'r terfyn awdurdodedig a'r ffin weithredol, gan fod y ddyled allanol yn adlewyrchu'r sefyllfa ar un adeg.

10. Wrth benderfynu ar yr adroddiad hwn o'r gyllideb, gofynnir i'r Awdurdod Tân nodi mai'r terfyn awdurdodedig a bennir ar gyfer 2004-2005 (gweler paragraff 6 uchod) fydd y terfyn statudol a benderfynir dan adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

11. Yr amcangyfrif o effaith raddol o ran y penderfyniadau buddsoddi cyfalaf arfaethedig yn yr adroddiad hwn o'r gyllideb, uwchlaw penderfyniadau buddsoddi cyfalaf sydd wedi'u gwneud yn flaenorol gan yr Awdurdod Tân yw:

Cynnydd Gwirioneddol yn y cyfraniad gan gynghorau sy'n rhan o'r Awdurdod

| 2004/05 | 2005/06 | 2006/07 |
|---|---|---|
| £85,724 | £343,028 | £495,918 |

12. Wrth ystyried ei raglen ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Tân o fewn ei Gôd Darbodus roi ystyriaeth i:

- a yw'n fforddiadwy, e.e. goblygiadau o ran y cyfraniadau gan gynghorau sy'n rhan o'r Awdurdod
- yr angen i fod yn ddarbodus ac yn gynaladwy, e.e. goblygiadau o ran benthyca allanol
- gwerth am arian, e.e. gwerthuso opsiwn
- rheoli asedau, e.e. cynllunio rheoli asedau
- amcanion gwasanaeth, e.e. cynllunio strategol ar gyfer yr awdurdod
- ymarferoldeb, e.e. a ellir cyflawni'r blaen gynllun.

13. Ffactor allweddol o ran bod yn fforddiadwy yw effaith raddol cyfraniad y cynghorau sy'n rhan o'r Awdurdod, a gallai'r Awdurdod Tân ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer ei raglen fuddsoddi cyfalaf mewn perthynas â'u heffaith wahaniaethol ar y cyfraniadau.

ATODIAD G

**Strategaeth Reoli'r Trysorlys a Chynllun Blynyddol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar gyfer 2004-2005**

## 1. Cyflwyniad

Mae adroddiad blaenorol ar y rhaglen wedi argymell bod yr Awdurdod Tân yn mabwysiadu Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus, mae'r côd yn rhoi fframwaith cyffredinol ar gyfer aelodau a swyddogion er mwyn lleihau'r risgiau sydd ynghlwm â'r swyddogaeth trysorlys. Mae'n ofynnol yn ôl y côd fod adroddiad ar y strategaeth am y flwyddyn sydd i ddod yn cael i gyflwyno i'r Awdurdod Tân. Mae'r strategaeth a nodir osod yn cydymffurfio gyda'r côd ac mae'n ei gyflwyno fel sy'n angenrheidiol.

## 2. Trosolwg

Mae'r strategaeth yn manylu ar weithgareddau tebygol staff Rheoli'r Trysorlys yn 2004-2005. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n gyfrifol am y swyddogaeth trysorlys ar ran Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth. Mae Conwy wedi penodi Butlers fel cynghorwyr ar hyn ac mae'r strategaeth yn seiliedig ar eu rhagolygon o'r farchnad fel a amlinellir yn eu cyhoeddiadau amrywiol.

Bydd yr adroddiad o'r strategaeth yn cynnwys y meysydd canlynol:

(i) Sefyllfa bresennol
(ii) Terfynau benthyca yn 2004-2005
(iii) Cyfraddau llog yn 2004-2005
(iv) Strategaeth Fenthyca
(v) Strategaeth Fuddsoddi/partïon eraill

### (I) Sefyllfa Bresennol

| | | |
|---|---|---|
| Benthyca Cyfradd Sefydlog | PWLB | £2,999,428 |
| Benthyca Cyfradd Newidiol | PWLB | £964,000 |
| Arian/Buddsoddiadau | | £3,800,000 |

PWLB – Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus, sydd erbyn hyn yn rhan o Swyddfa Rheoli Dyledion DU, sy'n darparu'r rhan fwyaf o gyllid cyfalaf awdurdodau lleol.
Arian/Buddsoddiadau – Mae arian sy'n weddill yn cael ei fuddsoddi gan Gonwy ar y farchnad arian am lai na blwyddyn.

### (ii) Terfynau o ran Benthyca 2004-2005

Yn unol ag adran 3(1) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a'r Côd Darbodus mae'n ofynnol bod yr awdurdod yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi tri therfyn i'r gwahanol fathau o fenthyca a wneir. Y terfyn cyntaf yw'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf, mae hyn yn fesur o'r ddyled tymor hir sydd ei hangen i gefnogi rhaglen gyfalaf yr awdurdod. Mae'r Ffin Weithredol yn fesur o'r cyfanswm posibl o ran dyled allanol gan ganiatáu am amrywiadau yn y llif arian. Mae'r Terfyn Awdurdodedig yn amcangyfrif o'r uchafswm y gallai'r awdurdod ei fenthyca yn seiliedig ar asesiad o ofynion gweithredol a risgiau allanol. Y terfynau ar gyfer 2004-2005 yw:

| | |
|---|---|
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | £7,081,000 |
| Ffin Weithredol | £9,635,000 |
| Terfyn Benthyca Awdurdodedig | £11,635,000 |

Gyda dyfodiad y Côd Darbodus gwelir newid o ran terfynau a osodir o dan rhan 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, gyda thri dangosydd darbodus newydd yn ymwneud â chyfradd llog. Argymhellir bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r terfynau canlynol:

| | % Benthyca |
|---|---|
| Cyfradd Llog Sefydlog | 55 - 90 |
| Cyfradd Llog Newidiol | 10 - 45 |

Argymhellir bod yr Awdurdod yn gosod terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu ei fenthyciadau cyfradd sefydlog:

| | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf |
|---|---|---|
| Dan 12 Mis | 30% | 0% |
| 12 Mis ac o fewn 24 Mis | 30% | 0% |
| 24 Mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 90% | 20% |

(iii) **Cyfraddau Llog 2004-2005**

Mae'r rhagolygon o ran cyfradd llog ar gyfer 2004-2005 yn cael ei baratoi gan ymgynghorwyr (Butlers) rheoli'r trysorlys yr Awdurdod. Fe'i ceir isod:

| Blwyddyn | Diwedd Cyfnod | Cyfradd Sylfaenol | 12 Mis Libor | 10 mlynedd Gilt |
|---|---|---|---|---|
| 2003 | Mawrth | 3.75 | 3.60 | 4.30 |
| | Mehefin | 3.75 | 3.50 | 4.10 |
| | Medi | 3.50 | 4.00 | 4.50 |
| | Rhagfyr | 3.75 | 4.40 | 4.90 |
| 2004 | Mawrth | 4.00 | 4.60 | 5.10 |
| | Mehefin | 4.25 | 4.90 | 5.40 |
| | Medi | 4.50 | 5.10 | 5.50 |
| | Rhagfyr | 4.50 | 5.10 | 5.60 |
| 2005 | Mawrth | 4.50 | 5.10 | 5.60 |

Dyma'r rhagolygon o ran yr economi a chyfraddau llog yn ôl Butlers. Mae'r record o ran dyled sector cyhoeddus Prydain a'r perygl y gallai cynnydd sydyn mewn cyfraddau, trwy ei effaith ar gostau talu dyledion, arwain at newid mawr o ran twf gwariant. Mae disgwyl i hyn fod yn ddylanwad mawr ar dynhau polisi yn 2004. Rhagwelir y bydd gwariant adwerthol yn arafu ond y gobaith yw y bydd cynnydd o ran allforion yn sgil cynnydd mewn cystadleuaeth yn y DU yn delio gyda hyn. Y prif beth a ragwelir gan Butlers yw na fydd Banc Lloegr dan bwysau i gynyddu cyfraddau llog yn ddramatig gan arwain yn araf at godiad mewn cyfraddau llog i wrthsefyll pwysau chwyddiant.

(iv) **Strategaeth Fenthyca**

Mae'r senario a nodir uchod yn arwain at y strategaeth fenthyca ganlynol:

- benthyca cyfran o arian cyfradd sefydlog yn y flwyddyn i gymryd mantais ar gyfraddau is tymor canol
- cadw peth posibilrwydd benthyca rhag ofn i ddigwyddiadau economaidd/gwleidyddol annisgwyliadwy wthio cyfraddau'n is

- ystyried cyfraddau benthyg newidiol gan ei fod yn debygol y bydd y cyfraddau hyn yn aros yn isel.

(v) **Strategaeth Fuddsoddi/ Partïon eraill**

Gwneir yr holl fuddsoddiadau fel adneuon arian i fanciau, cymdeithasau adeiladu ac awdurdodau lleol. Bydd rhai benthyciadau'n digwydd trwy rai o gwmnïau brocer a ddefnyddir gan Gonwy a bydd eraill yn uniongyrchol gan yr awdurdod. Ni fydd yr un buddsoddiad yn fwy na 364 diwrnod a byddant yn unol â'r rhagolygon marchnad diweddaraf.

Mae rhestr o bartïon eraill a awgrymir wedi'u cynnwys isod i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân:

**Terfyn £5m Banciau**
Barclays, HSBC, Lloyds TSB, National Westminister, Royal Bank of Scotland, Halifax a'r Bank of Scotland, Abbey National, Alliance & Leicester, Bank of Ireland, Allied Irish Bank, Northern Rock, Bradford & Bingley, Anglo Irish Bank a'r Woolwich.

**Terfyn £5m Llywodraeth Ganol**
Swyddfa Rheoli Dyled

**Terfyn £2m Awdurdodau Lleol**
Pob un ac eithrio'r rhai sy'n amodol ar derfynau treth y cyngor ac archebiant dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

**Cymdeithasau Adeiladu (Asedau dros £400m) terfyn £2m**
Britannia, Cambridge, Chelsea, Cheshire, Coventry, Cumberland, Darlington, Derbyshire, Dunfermline, Furness, Hinckley & Rugby, Kent Reliance, Lambeth, Leeds and Holbeck, Leek United, National Counties, Nationwide, Newcastle, Norwich and Peterborough, Nottingham, Portman, Progressive, Saffron Waldon, Scarborough, Skipton, Staffordshire, Stroud & Swindon, The Principality, West Bromwich a'r Yorkshire.